**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghori Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH wedi'i gynnal yn hybrid o bell ar ddydd Iau 19 Hydref 2023**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans a Matthew Vaux

**Swyddogion yn bresennol:** Gerwyn Jones, Owen Morgan a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Brian Davies, Norman Robertson, Chis Seal, Owen Jones-Williams. Stephen Webb, Carl Rich, David Nicholson, Jonathan Evans, Brett Stones, David Barnes, Mike Masters, Patricia Lewis, Sandra Cosslett

(7.50pm – 8:20pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards am ei anallu i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023**
   CYTUNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth fel cofnod cywir.

3. **Diweddariad Gwasanaeth yr Harbwr**
   Amlinellodd Owen Morgan, Rheolwr yr Harbwr gynnwys Dyfroedd Tawel 5 a nodwyd y cynnwys gan yr Aelodau.

4. **Rhestr Aros Angorfa**
   Cytunwyd nodi rhestr aros angorfa fel y'i cyflwynwyd.

5. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**
   - Gofynnwyd am eglurhad ynghylch codi cychod o'r dŵr dros y Gaeaf. Adroddwyd ei bod yn ofynnol i ddeiliaid angorfeydd wneud eu trefniadau eu hunain yn amodol ar y ceisiadau a'r trwyddedau gofynnol i wneud hynny. Roedd storio yn ystod y Gaeaf yn amodol geisiadau a thaliad costau. Gofynnwyd i garthu' Harbwr a'r Marina. Adroddwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn unol â chyllideb y gwasanaeth. Cadarnhawyd hefyd mai cyfrifoldeb y Marina yw carthu'r Marina.

   - Trafodwyd y cynnig i adfywio ardal yr harbwr, a chadarnhawyd nad oedd y Gwasanaeth Harbwr yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ffurfiol. Codwyd pryderon gan ddefnyddiwr yr Harbwr y gallai cynlluniau ar gyfer pont o'r Marina gyfyngu ar fordwyo

llongau wedi'u mhastio o fewn yr harbwr. Cadarnhaodd Owen Morgan ei fod ef hefyd wedi codi'r un pryderon gyda chydweithwyr a oedd yn rhan o'r cais.

- Gwnaed adroddiadau bod cychod yn teithio dros 8 not o'r lan. Mewn ymateb, adroddodd Rheolwr yr Harbwr y dylai'r achosion hyn gael eu hadrodd i Heddlu'r Harbwr, yr Heddlu a'r MCA.
- Dim diweddariad ar Farina Aberystwyth